# Swyddog Cynllunio a Datblygu – Mentrau Gofal Cymdeithasol Bychain

**Contract cyfnod penodol tan fis Mehefin 2021**
**37 awr yr wythnos**

**Graddfa H SCP 34 i 37**
**£30,756 i £33,136**

Caiff Gwasanaethau Cymdeithasol eu darparu o fewn cyd-destun gofynion cymdeithasol, demograffig ac amgylcheddol sy'n newid yn gyflym, ac mae'r adran angen gallu ymateb i'r gofynion hynny ynghyd â pharhau i ddiwallu anghenion defnyddwyr ei wasanaeth a'u gofalwyr o fewn cyllideb y cytunwyd arni.

Mae'r pwysau ar y sector gofal cymdeithasol yn dra hysbys. Mae Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru (2017) yn rhagamcan ein bod yn debygol o weld cynnydd heb ei debyg yn nifer y bobl hŷn (dros 65 oed) yn Sir y Fflint, o 30,000 yn 2014 i 46,000 erbyn 2039. Mae'r effaith y gallai hyn ei gael ar y sector gofal cymdeithasol presennol yn sylweddol.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn dymuno cyflogi Swyddog Cynllunio a Datblygu brwdfrydig, angerddol a deallus i gefnogi mentrau gofal cymdeithasol bychain sydd eisoes yn bodoli a'r rhai hynny sy'n datblygu. Cyfeirir at y rhain weithiau fel 'mentrau gofal bychain', a byddant yn darparu gofal uniongyrchol a phersonol i drigolion Sir y Fflint. Bydd y mentrau hyn yn gweithio mewn cymunedau lleol i gynnig hyblygrwydd a gwasanaethau gofal personol, cyfleoedd am ddatblygiad economaidd, a bydd ganddynt hefyd ran mewn datblygu gwytnwch o fewn cymunedau.

Fel rhan o'r swydd, bydd gofyn cefnogi'r mentrau hyn drwy'r cyfnod sefydlu ac wrth iddynt ddatblygu o ran aeddfedrwydd, hyfywedd ac effaith. Bydd angen canolbwyntio ar ansawdd i sicrhau bod gan yr unigolion sy'n darparu'r gofal y sgiliau a'r wybodaeth gywir i wneud hynny. Bydd hefyd angen eu cyfeirio at amrywiaeth o gymorth a hyfforddiant sydd ar gael i fusnesau a datblygu adnoddau pwrpasol yn ôl yr angen.

Bydd rôl deiliad y swydd yn allweddol o ran codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ac effaith y mentrau hyn wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol ymysg budd-ddeiliaid mewnol ac allanol a'r cyhoedd.

Ochr yn ochr â'r elfennau gweithredol, bydd deiliad y swydd yn cefnogi uwch gydweithwyr gyda datblygiadau strategol.

Mae'r rhaglen yn flaenoriaeth gorfforaethol a bydd gofyn i ddeiliad y swydd adrodd ger bron Bwrdd Gweithredu o gynrychiolwyr amrywiol bortffolios y Cyngor ac asiantaethau partner.

Mae'r swydd hon yn gyfle cyffrous i ddatblygu dull arloesol o gefnogi'r sector gofal cymdeithasol ac i wneud gwahaniaeth i'r unigolion hynny sy'n byw yn ein cymunedau.

*Gan fod hwn yn benodiad contract cyfnod penodol, byddai'n cyfrif fel cyfle am secondiad ar gyfer aelodau parhaol o staff, felly byddai angen i chi siarad â'ch rheolwr atebol ymlaen llaw.*

I drafod y swydd yn anffurfiol, cysylltwch â Dawn Holt, Rheolwr Comisiynu, ar 01352 702128.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn sgil bwysig a gwerthfawr yn y gweithle, ac mae wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gweithwyr dwyieithog. Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan ymgeiswyr sy'n gallu gweithio yn Gymraeg a Saesneg. Byddwn

hefyd yn cefnogi gweithwyr newydd a rhai sydd eisoes yn gweithio gyda ni sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella/datblygu eu sgiliau Cymraeg.

Rydym yn croesawu ceisiadau ar gyfer patrymau gwaith rhan amser, rhannu swydd a gweithio'n hyblyg.